



HORIZON 2020

Croeso i rhifyn Rhagfyr o e-Newyddion Horizon 2020, a chroeso arbennig i'n tanysgrifwyr newydd.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi!

Penawdau

- [Cymru yn sicrhau €100m o gyllid Horizon 2020](#)
- [SCoRE Cymru yn helpu i sicrhau dros €5 million o Horizon 2020](#)
- [£1.7m o gyllid yr UE i hybu sector gweithgynhyrchu Cymru](#)
- [Cyllid yr UE yn helpu i gynnal uchelgais Cymru o ran ynni'r môr](#)
- [Llai o fiwrocratiaeth yn Horizon 2020, medd Archwilwyr](#)

Cymru yn sicrhau €100m o gyllid Horizon 2020

Mae'r Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford wedi cyhoeddi (12 Tachwedd) bod Cymru wedi sicrhau mwy na €100m gan Horizon 2020 i gefnogi prosiectau ymchwil a datblygu sylweddol.

Ers lansio'r rhaglen hynod gystadleuol hon, mae busnesau a phrifysgolion Cymru wedi cymryd rhan mewn dros 2,800 o brosiectau cydweithredol rhyngwladol. Mae rhain wedi cefnogi gwaith arloesi a thwf sydd ar flaen y gad ar gyfer busnesau, gan sicrhau manteision economaidd sylweddol i Gymru, ac wedi helpu i roi prifysgolion Cymru ar reng flaen y maes ymchwil. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

SCoRE Cymru yn helpu i sicrhau dros €5 million o Horizon 2020

Ers i SCoRE Cymru gychwyn 5 mlynedd yn ôl, mae wedi helpu i sicrhau dros €5.3 miliwn i Gymru o raglen Horizon 2020. Gan gefnogi sefydliadau yng Nghymru sy'n ymgeisio'n bennaf i Horizon 2020, mae 249 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo i gefnogi 86 o sefydliadau unigol, gyda mwyafrif y cyllid yn cael ei ymrwymo i Fusnesau Bach a Chanolig.

Am gyfnod cyfyngedig mae uchafswm y cyfraddau grant sydd ar gael drwy SCoRE Cymru wedi cynyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau eraill (mae BBaChau eisoes yn gallu cael gafael ar hyd at 100% o gostau cymwys). Gellir cael manylion pellach am y lefelau cymorth addasedig hyn [yma](#).

£1.7m o gyllid yr UE i hybu sector gweithgynhyrchu Cymru

Mae'r Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford wedi cyhoeddi £1.7m o gyllid yr UE i roi hwb i sector gweithgynhyrchu Cymru (dydd Gwener 26 Hydref). Bydd cyllid yr UE yn helpu busnesau bach a chanolig i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg uwch er mwyn creu prosesau a chynnyrch newydd, gwell fel rhan o brosiect Peirianeg Dylunio Uwch gwerth £2.8m.

Dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, bydd y prosiect yn helpu busnesau gweithgynhyrchu i symud oddi wrth ddulliau gweithgynhyrchu traddodiadol at brosesau newydd, gan helpu i gynyddu eu gallu i gystadlu a'u cynaliadwyedd mewn marchnadoedd byd-eang. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Cyllid yr UE yn helpu i gynnal uchelgais Cymru o ran ynni'r môr

Yn ddiweddar bu'r Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford, yn disgrifio uchelgais Cymru i fod yn un o'r arweinwyr ym maes datblygu ynni'r môr. Wrth draddodi ei araith yng nghynhadledd ac arddangosfa Ocean Energy Europe yng Nghaeredin ar 31 Hydref, dywedodd yr Ysgrifennydd Cyllid:

“Dros y 18 mis diwethaf, mae'r UE a Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn nifer o brosiectau ynni morol, gan gynnwys gwaith caniatâd Morlais, Ardaloedd Prawf Ynni'r Môr yn Sir Benfro, Bombora Wavepower a Marine Power Systems, yn ogystal â pharhau i gefnogi Ynni Môr Cymru.

“Rydyn ni'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod Cymru yn un o'r arweinwyr ym maes ynni'r môr, gyda'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu gan y tonnau a'r llanw yn rhan bwysig o'n huchelgais i greu economi carbon isel.”

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Llai o fiwrocratiaeth yn Horizon 2020, medd Archwilwyr

Ar ôl cyflwyno ystod o fesurau symleiddio, mae'r baich gweinyddol ar y rheini sy'n gwneud cais ar gyfer y grantiau ymchwil o dan raglen Horizon 2020 ac yn eu rheoli, wedi lleihau, yn ôl [adroddiad](#) newydd gan Lys Archwilwyr Ewrop.

Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn effeithiol, yn ôl archwilwyr, ond mae lle i wella o hyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Dyddiadau i'ch dyddiadur

Diwrnod Gwybodaeth Cenedlaethol am Gyllid EUREKA Eurostars, Birmingham, 13 Rhagfyr 2018

Mae Rhwydwaith Menter Ewrop mewn partneriaeth ag Innovate UK yn cynnal digwyddiad gwybodaeth a rhwydweithio hanner diwrnod AM DDIM i gyflwyno rhaglen EUREKA Eurostars a chyfleoedd cyllido eraill a ddarperir drwy raglenni eraill Rhwydwaith EUREKA.

Rhaglen ar y cyd yw Eurostars rhwng EUREKA a'r Comisiwn Ewropeaidd, a ariennir ar y cyd gan gyllid cenedlaethol y 36 o Wladwriaethau a Gwledydd Partner Eurostars a rhaglen Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Digwyddiad Partneriaeth yr UE : Meddygaeth Aildyfu Horizon 2020, Sweden, 10 Ionawr 2019

Mae Cyngor Ymchwil Sweden, Vinnova, Rhwydwaith Menter Ewrop, Innovate UK, a'r Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth yn cynnal digwyddiad partneriaeth sy'n canolbwyntio ar feithrin a hwyluso consortia prosiect ymchwil a datblygu ar gyfer prosiectau a ariennir gan Horizon 2020 ar y pwnc BHC-07-2019 – meddygaeth aildyfu: o syniadau newydd i geisiadau newydd.

Bydd y digwyddiad, sy'n agored i BBaChau, cwmnïau mwy, canolfannau technoleg, prifysgolion a sefydliadau ymchwil, yn rhoi llwyfan ar gyfer ymchwil trawswladol newydd, cydweithrediadau masnachol a thechnolegol, yn arbennig rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil y DU a Sweden. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Her Gymdeithasol Chwech Horizon 2020: Digwyddiadau gwybodaeth, Ionawr 2019

Yn dilyn y diweddariad i Raglen Waith 2019 ar gyfer Horizon 2020 yn gynharach eleni, mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau gwybodaeth yn trafod Sialens Gymdeithasol Chwech: Ewrop mewn byd sy'n newid, yn ogystal â chyfleoedd cyllido ymchwil ehangach ar gyfer gwyddorau cymdeithasol a dyniaethau ar gael yn Horizon 2020. Cynhelir y digwyddiadau mewn dau leoliad gwahanol yn ogystal ag ar-lein:

Dydd Mercher 9 Ionawr 2019 - Webinar

Dydd Llun 14 Ionawr 2019 - Yr Academi Brydeinig, Llundain

Dydd Iau, 17 Ionawr 2019 - Prifysgol Newcastle

Mwy o wybodaeth [yma](#).

Cyfrifiadura Perfformiad Uchel a Thechnolegau Cyfrifiadura ar Raddfa Eithafol yn Horizon 2020: Digwyddiad Gwybodaeth ac Adeiladu Consortia, Llundain, 29 Ionawr 2019

Mae Innovate UK a'r Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth yn cynnal digwyddiad Horizon 2020 Cyfrifiadura Perfformiad Uchel a Thechnolegau Cyfrifiadura ar Raddfa Eithafol gyda'r nod o gefnogi gweithio ar y cyd ar draws y DU ac Ewrop.

Bydd y digwyddiad yn trafod syniadau am y pynciau dan sylw yn 2019, ac yn cynnwys cyfleoedd i adeiladu consortia, datblygu cynigion a gweithgareddau broceriaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Cynhadledd y Gofod 2019, International Convention Centre, Casnewydd, 9-11 Gorffennaf 2019

Mae'r [Asiantaeth Gofod y DU](#) wedi cyhoeddi y bydd Cymru yn cynnal Cynhadledd Gofod y DU 2019 rhwng 9 a 11 Gorffennaf 2019. Ystyriwch mai'r gynhadledd yw'r digwyddiad mwyaf

dylanwadol ar gyfer y gymuned sy'n ymwneud â'r gofod, ac mae'n dwyn ynghyd pobl o'r llywodraeth, diwydiannau a'r byd academaidd, i feithrin cysylltiadau, rhannu cyfleoedd a mynd i'r afael â phryderon y maent yn eu rhannu ar adeg hollbwysig o newid a thwf i'r sector. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Mwy o wybodaeth

Os ydych yn derbyn cyllid gan Horizon 2020, mewngofnodwch i borthol Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) i ddarparu gwybodaeth am eich prosiect.

Diben y [porthol \(sydd ar gael yma\)](#) yw sicrhau bod gan yr UKRI y gwybodaeth gychwynnol am brosiectau a chyfranogwyr er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i sefydliadau am y camau nesaf mewn perthynas â gweithredu taliadau tanysgrifennu, pe bai eu hangen.

Awgrym Defnyddiol!

Cymerwch ysbrydoliaeth gan rai o lwyddiannau Horizon 2020 Cymru hyd yma - edrychwch ar yr astudiaethau achos [busnes](#) ac [addysg uwch](#) ar [wefan Horizon 2020 Llywodraeth Cymru](#).

Adborth

Mae e-Newyddion Horizon 2020 yn fwletin rheolaidd sy'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer cymuned Horizon 2020 yng Nghymru. Caiff ei lunio gan Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru, ac rydym yn croesawu eich sylwadau a'ch awgrymiadau.

Anfonwch e-Newyddion at unrhyw un a allai fod â diddordeb. Os anfonwyd yr e-gylchlythyr hwn atoch a hoffech danysgrifio, rhowch wybod i ni drwy ein [Mewnflwch Horizon 2020](#). Gallwch ddefnyddio'r un cyfeiriad i roi gwybod i ni os byddwch am ddod â'ch tanysgrifiad i ben.

Rydych wedi derbyn yr e-bost hwn am eich bod wedi cofrestru i fynd i ddigwyddiad blynyddol Horizon 2020 neu wedi tanysgrifio i dderbyn e-Newyddion Horizon 2020.

* Nid yw'r ffaith bod manylion digwyddiadau neu hyfforddiant wedi'u cynnwys yn golygu bod y digwyddiadau neu'r hyfforddiant wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Cânt eu cynnwys yn ôl disgrisiwn lwyr Llywodraeth Cymru ac rydym yn cadw'r hawl i wrthod cynnwys unrhyw ddigwyddiad neu hyfforddiant neu ei dynnu'n ôl heb eglurhad. Caiff y defnydd a wneir gennych o'r cylchlythyr hwn ei reoli gan ein Telerau ac Amodau sydd ar gael ar gais.
